



Llywodraeth Cymru Ymgynghoriad – Crynodeb o'r Ymatebion

Ardrethi Annomestig

Pennu'r Cyfraddau Datgyfalafu ar gyfer Ailbrisiad yr Ardrethi
Annomestig yn 2021

Medi 2019

Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar gynigion yn pennu'r cyfraddau datgyfalafu ar gyfer ailbrisiad yr ardrethi annomestig yn 2021.

Camau Gofynnol

Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig.

Manylion cyswllt

Y Gangen Polisi Ardrethi Annomestig
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: LocalTaxationPolicy@gov.wales

Copiau ychwanegol

Cyhoeddir yr adroddiad cryno hwn a chopïau o'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad ar ffurf electronig yn unig a dim ond o wefan Llywodraeth Cymru y gellir mynd atynt.

Dogfennau Cysylltiedig

Dolen i'r ddogfen ymgynghori:
<https://llyw.cymru/cyfraddau-datgyfalafu-i-gymru-ar-gyfer-ailbrizio-arderthi-annomestig-2021>

Pennu'r Cyfraddau Datgyfalafu ar gyfer Ailbrisiad yr Ardrethi Annomestig yn 2021

Cyflwyniad	2
Cynigion	3
Ymgysylltu	3
Trosolwg o'r Ymatebion.....	3
Crynodeb o'r Ymatebion.....	4
Y Camau Nesaf	7
Atodiad A: Rhestr o Ymatebwyr	8

Pennu'r Cyfraddau Datgyfalafu ar gyfer Ailbrisiad yr Ardrethi Annomestig yn 2021

Cyflwyniad

1. Cynhelir ailbrisiad o eiddo annomestig bob pum mlynedd, fel arfer. Roedd disgwyl i'r ailbrisiad nesaf fod yn 2022 ond penderfynodd Llywodraeth Cymru ddwyn yr ailbrisiad nesaf ymlaen i 2021.
2. Prif bwrpas yr ailbrisiad, a'r cam cysylltiedig o bennu'r lluosydd, yw addasu rhwymedigaeth eiddo o'i chymharu ag eraill yn sylfaen dreth yr ardrethi annomestig. Mae hyn yn sicrhau bod y rhwymedigaeth ardrethi wedi ei gwasgaru'n deg rhwng talwyr ardrethi a'i fod wedi'i seilio ar werthoedd rhent cyfredol. Neilltuir gwerth ardrethol newydd i bob eiddo yn ystod pob ailbrisiad. Caiff y lluosydd ei ailbennu gan Lywodraeth Cymru i sicrhau y gall y sylfaen dreth gynhyrchu'n fras yr un faint o gyllid ar ôl ailbrisio ag o'r blaen.
3. Mae paratodau ar y gweill i gyflwyno rhestr ardrethi newydd yng Nghymru o 1 Ebrill 2021 ymlaen. Asiantaeth y Swyddfa Brisio sy'n gyfrifol am gasglu a chyhoeddi'r rhestr ardrethi, a bydd yn sicrhau y neilltuir gwerth ardrethol newydd i bob eiddo annomestig ar sail y brasamcan o'i werth rhent blyneddol ar y Dyddiad Prisio Rhagflaenol o 1 Ebrill 2019. Mae'r Asiantaeth yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.
4. Mae'r Asiantaeth yn defnyddio tri dull o gyfrifo gwerth ardrethol eiddo annomestig, gan ddibynnu ar y dystiolaeth sydd ar gael. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nodwedd o un o'r dulliau hyn, sef Sail y Contractwyr. Asesir y rhan fwyaf o eiddo trwy ddefnyddio gwybodaeth am rentu. Defnyddir Sail y Contractwr ar gyfer eiddo arbenigol lle ceir prinder neu ddiffyg tystiolaeth uniongyrchol o'r rhenti gwirioneddol. Caiff oddeutu 6,000 o eiddo annomestig yng Nghymru eu prisio trwy ddefnyddio Sail y Contractwr. Mae'r eiddo yn cynnwys cyfleustodau, ysgolion, ysbytai, diwydiant trwm, gorsafoedd tân a heddlu, a meysydd awyr, ymysg eraill.
5. Mae'r gyfradd ddatgyfalafu yn rhan allweddol o Sail y Contractwr. Ffigur canrannol ydyw a ddefnyddir i drosi gwerth cyfalafol eiddo yn werth rhent blyneddol. Mae'n sicrhau bod y costau a'r buddion o fod yn berchen ar eiddo, o'u cymharu â rhentu eiddo, yn cael eu hystyried wrth gyfrifo gwerth ardrethol eiddo.
6. Gofynnodd yr ymgynghoriad am farn ar ba un a ddylid pennu cyfradd ddatgyfalafu mewn deddfwriaeth, faint o gyfraddau y dylid eu pennu a sut y

dylid cyfrifo'r gyfradd neu'r cyfraddau. Roedd yr ymgynghoriad yn berthnasol i Gymru yn unig.

Cynigion

7. Canolbwyntiodd yr ymgynghoriad ar y tri dull posibl o gyfrifo gwerth ardrethol eiddo, nifer y cyfraddau y dylid eu pennu a'r cyfraddau priodol ar gyfer Ailbrisiad 2021.


Ymgysylltu

8. Gofynnwyd am safbwyntiau yn rhan o gyfnod ymgynghori o 12 wythnos a ddechreuodd 8 Mawrth 2019 ac a ddaeth i ben 20 Mai 2019. Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar dudalennau ymgynghori gwefan Llywodraeth Cymru. Roedd yn bosibl i ymatebwyr gyflwyno eu safbwyntiau a'u sylwadau ar bapur, drwy e-bost neu ar-lein ac yn Gymraeg neu Saesneg.

Trosolwg o'r Ymatebion

9. At ei gilydd, cafwyd naw ymateb o sylwedd i'r ymgynghoriad, ac roedd bron pob un o'r rhain gan gyrff cynrychiadol. Mae Ffigur 1 yn dangos yr ymatebion a gafwyd fesul categori. O'r naw ymateb, daeth pedwar o gymdeithasau a phedwar o gyrff cynrychiadol ariannol neu gynghorol proffesiynol. Daeth yr ymateb arall o gwmni meddalwedd.

Ffigur 1: Nifer yr ymatebion i'r ymgynghoriad, fesul categori



10. Ceir rhestr lawn o ymatebwyr yn Atodiad 1. Gellir gwneud cais i'r Gangen Polisi Ardrethi Annomestig am restr lawn o'r ymatebion unigol.

Crynodeb o'r Ymatebion

11. Bwriad y ddogfen hon yw crynhoi'r ymatebion a ddaeth i law. Nid ei bwriad yw cipio pob pwynt a godwyd gan ymatebwyr, ond yn hytrach i amlygu'r themâu allweddol.

Cwestiwn 1 A ydych chi'n cytuno y dylai Llywodraeth Cymru barhau i bennu'r cyfraddau datgyfalafu a ddefnyddir yn y Prisiad ar Sail y Contractwr?

12. Ymatebion

- Cytunodd yr ymatebwyr â'r cynnig mewn egwyddor, roedd rhai yn dweud ei fod yn osgoi'r angen am ymglyfreitha, a oedd yn nodwedd o'r cyfraddau datgyfalafu cyn iddynt gael eu pennu. Mae'r dull yn safoni'r ymagwedd at drosi gwerth cyfalaf yn werth rhentu ac yn dileu unrhyw ansicrwydd ynghylch y cyfraddau a ddefnyddir.
- Dywedodd nifer o ymatebwyr mai'r allwedd i bennu oedd bod cyfraddau yn cael eu gosod yn deg o fewn cyd-destun cyfraith achosion bresennol.
- Gwnaed y pwynt mai'r unig fantais o beidio â pharhau â phennu oedd er mwyn adlewyrchu amgylchiadau meddianwyr unigol yn y gyfradd ddatgyfalafu.
- Mynegwyd pryderon y gallai un dull sy'n gweddu i bawb fod yn anfantais mewn rhai ardaloedd penodol, ac er ei bod yn ddefnyddiol cael cyfradd statudol, nid yw hyn yn wir oni bai bod y gyfradd yn adlewyrchu realiti yn briodol.
- Awgrymwyd pe byddai pennu yn parhau, ei bod yn bwysig bod y system yn darparu mwy o gysoni a chydgyssylltu ledled y DU a dylai Llywodraeth Cymru geisio cydgysylltu'n well fyth â Lloegr o ran ei ymgynghoriad ar ddatgyfalafu.

Casgliad

Y dewis a ffeirir gan y rhan fwyaf o ymatebwyr oedd defnyddio cyfraddau wedi'u pennu yn y Prisiad ar Sail y Contractwr.

Cwestiwn 2 A ydych yn cytuno y dylai Llywodraeth Cymru barhau i bennu dwy gyfradd ddatgyfalafu yng Nghymru?

13. Ymatebion

- Cytunodd y rhan fwyaf o ymatebwyr y dylai Llywodraeth Cymru barhau i bennu dwy gyfradd ddatgyfalafu.
- Awgrymwyd bod y system bresennol wedi gweithio'n dda ac fe'i deallir yn eang, ond ni ddylid ei ymestyn y tu hwnt i'w ffiniau presennol, sef gofal iechyd, addysg, amddiffyn a thoiledau cyhoeddus.

- Roedd un ymatebydd o'r farn y dylid pennu tair cyfradd, fel y nodwyd yn y dyfarniad yn [1] Williams v Cyngor Sir Caerdydd (VO) 1973 RA 46, ac y dylai cyrff sector cyhoeddus a sefydliadau dielw gael defnyddio'r gyfradd ddatgyfalafu is.
- Nododd Cymdeithas yr Amgueddfeydd Annibynnol nad yw'r gyfradd safonol na'r gyfradd is yn adlewyrchu realiti cyllido ar gyfer y sector amgueddfeydd a threftadaeth.

Casgliad

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i bennu dwy gyfradd ddatgyfalafu.

Cwestiwn 3 A oes gennych unrhyw farn ar y dulliau o bennu cyfraddau datgyfalafu (gan gynnwys unrhyw awgrymiadau ar gyfer dulliau gwahanol), ar yr ystod o werthoedd a gynhyrchir trwy bob dull, neu ar rinweddau pob dull, neu fel arall?

14. Ymatebion

Gweler yr ymatebion i Gwestiwn 4.

Cwestiwn 4 A ydych yn cytuno â dull arfaethedig Llywodraeth Cymru o bennu cyfraddau datgyfalafu yng Nghymru?

15. Ymatebion

Mynegwyd safbwyntiau amrywiol i Gwestiynau 3 a 4.

- Un awgrym oedd, gan fod nifer o ddulliau ar gael at ddefnydd Asiantaeth y Swyddfa Brisiol i gyfrifo ffigur, mae'n rhaid iddo ddefnyddio'r dull sy'n gweddu gorau i'r hereditament unigol er budd y talwr ardrethi perthnasol, a dylid ei ddefnyddio mewn modd teg a chymesur. Awgrymwyd bod cyfraddau datgyfalafu rhestr ardrethi 2017 Cymru, o 3.8% a 2.1%, yn derfyn uchaf priodol ar gyfer ailbrisiad 2021.
- Roedd nifer o ymatebwyr o'r farn gan fod y fethodoleg bresennol wedi'i sefydlu dros sawl rhestr ers i'r Llywodraeth gynnig pennu cyfraddau datgyfalafu gyntaf, nad oedd unrhyw reswm amlwg dros amau y byddai'r fformat hwn yn arwain at ddull derbynol ar gyfer 2021.
- Roedd Cymdeithas yr Amgueddfeydd Annibynnol o'r farn nad oedd y dull arfaethedig o osod cyfraddau datgyfalafu yn adlewyrchu'r realiti o ran sut yr ariennir datblygiadau amgueddfeydd yn y sector. Cynigiodd y Gymdeithas hon drydedd cyfradd is i'w chyflwyno yn y cynllun statudol.
- Awgrymodd un ymateb fod pennu'r cyfraddau datgyfalafu yn ymwneud yn llai â methodoleg ac yn fwy â gwleidyddiaeth a ffafrio busnesau penodol. Mynegwyd dewis os nad i roi'r gorau i bennu cyfraddau, yna i ddirprwyo'r broses i gorff annibynnol neu bwyllgor â chyfrifoldeb am

gyflawni cyfraddau sy'n adlewyrchu gwerth yn briodol, heb ddylanwad gan faterion allanol.

Casgliad

Cytunodd y rhan fwyaf o ymatebwyr â dull arfaethedig Llywodraeth Cymru ar gyfer pennu cyfraddau datgyfalafu yng Nghymru ar yr amod nad yw'n effeithio ar sectorau penodol yn annheg.

Cwestiwn 5 Hoffai Llywodraeth Cymru glywed eich barn ar yr effaith y byddai'r cynigion hyn yn ei chael ar y Gymraeg, yn benodol:
i) ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg; ac
ii) ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

16. Ymatebion

Gweler yr ymatebion i Gwestiwn 6.

Cwestiwn 6 Esboniwch hefyd sut, yn eich barn chi, y gellid llunio'r cynigion neu eu newid er mwyn:
i) cael effeithiau cadarnhaol, neu ragor o effeithiau cadarnhaol, ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a
ii) pheidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a heb drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

17. Ymatebion

- Dewisodd y rhan fwyaf o ymatebwyr beidio â rhoi sylwadau.
- Roedd y rhai a roddodd sylwadau o'r farn na fyddai'r cynigion yn cael effaith negyddol ar y Gymraeg na'i defnydd ac y dylid defnyddio'r Gymraeg mewn modd cadarnhaol nid mewn modd negyddol neu wahaniaethol. Ymysg y sylwadau dywedwyd pe byddai awydd i gynnal busnes drwy gyfrwng y Gymraeg, y dylid annog a chefnogi hyn ond na ddylid trin y bobl nad ydynt yn dymuno gwneud hynny mewn modd negyddol.
- Nododd ymatebydd arall fod y Gymraeg yn ddyfais farchnata gadarnhaol i Gymru ag iddi fanteision pellgyrhaeddol pe byddai'n cael ei thrin yn gywir.

Casgliad

Nid oedd unrhyw ymatebydd o'r farn y byddai effaith andwyol ar y Gymraeg yn sgil cysyniadau arfaethedig yr ymgynghoriad hwn.

Cwestiwn 7 Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw bwyntiau cysylltiedig nad ydym wedi eu trafod yn benodol, defnyddiwch y gwagle hwn i'w cofnodi:

18. Ymatebion

- Dywedodd dau ymatebydd fod diwydiannau penodol yn cael eu gorfodi i newid eu modelau busnes yn sgil natur newidiol menter cefn gwlad. Mae'n bosibl y bydd y dull o brisio eiddo yn broblem i asedau cefn gwlad a allai fod yn unigryw. Roedd llawer o eiddo yn cael eu gorfodi i arallgyfeirio neu ddatblygu ffrydiau cynhyrchu incwm a gwella perfformiad masnachol. Cafodd hyn ei danseilio gan y dull o weithredu Ardrethi Annomestig yr ystyriwyd ei fod yn gosod ardrethi cosbedigol ar ardaloedd a bennwyd ar gyfer gweithgarwch masnachol.
- Dywedodd ymatebwyr hefyd, fod y syniad o fod o fewn cwmpas Ardrethi Annomestig o ganlyniad i arallgyfeirio yn syndod llwyr i lawer ac y gallai arwain at fusnesau ac yn cael eu hannog i beidio ag ystyried ffrydiau incwm gwahanol.

Y Camau Nesaf

19. Defnyddir yr ymatebion i'r ymgynghoriad i lywio'r broses o bennu cyfraddau datgyfalafu ar gyfer ailbrisiad 2021.

20. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried y pwyntiau ehangach a godwyd gan ymatebwyr yn rhan o'r broses ehangach o greu polisi ardrethi annomestig.

Hoffem ddiolch i bawb sydd wedi cymryd yr amser i ymateb i'r ymgynghoriad. Roedd eich safbwyntiau yn bwysig wrth lywio'r penderfyniadau ar bennu'r cyfraddau datgyfalafu i Gymru. Rydym yn ddiolchgar am eich cyfraniad.

Atodiad A: Rhestr o Ymatebwyr

Cafwyd ymatebion gan y canlynol:

Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad
Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig
United Kingdom Petroleum Industry Association
Farebrothers
Altus Group
Cymdeithas yr Amgueddfeydd Annibynnol
Deloittes LLP
Y Sefydliad Ardrethu a Phrisio Refeniw
Cymdeithas y Syrfewyr Ardrethi